

Ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaethau Dwyieithog cyn y broses ddeddfu

Tystiolaeth gan Parc Cenedlaethol Eryri

Bil (Drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swydddogol): Ymateb i'r Ymgynghoriad

- Rydym y cytuno bod angen diweddarau'r fframwaith cyfreithiol mewn perthynas â safonau'r ddarpariaeth ddwyieithog yng ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol.
- Rydym yn cytuno dylid cynnwys datganiadau clir yn y Bil ynglŷn â statws y Gymraeg a'r Saesneg yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol ac yn swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad.
- Wrth nodi'n glir bod y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swydddogol y Cynulliad Cenedlaethol yn y Bil, mae'n sicrhau bod y ddwy iaith yn cael statws cyfartal ac yn rhoi arwydd clir na fydd hi'n bosib gwahaniaethu a thrin un iaith yn llai ffafriol na'r llall. Rydym felly yn cytuno gyda'r datganiadau yma yn y Bil.
- Rydym yn cytuno y dylai manylion y modd dylid cyflawni'r egwyddor o ddwyieithrwydd yn ymarferol gael eu cynnwys mewn Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog gan Comisiwn y Cynulliad. O ran cynnwys y cynllun ni fydd fawr o wahaniaeth yn y manylder ynddo a'r Cynllun Iaith bresennol, ac felly mae'n gwneud synnwyr i aros gyda'r un math o strwythur.
- Rydym yn cytuno dylai Comisiwn y Cynulliad fod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Gan fod pob un o Aelodau'r Cynulliad yn atebol i drigolion eu hetholaeth, bydd cyfle i'r cyhoedd codi materion o bryder dros weithredu'r Cynllun gyda'u haelod lleol, a byddant nhw wedyn yn gallu ymchwilio i mewn i'r materion hyn ac os yn briodol dod ar fater i sylw'r Cynulliad llawn. Bydd yr atebolrwydd yma i'r cyhoedd yn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei fonitro'n drylwyr gan y Cynulliad Cenedlaethol. Nid oes felly angen i Comisiwn y Cynulliad fod yn atebol i unrhyw un arall.
- O'r ochr ymarferol cytunwn buasai'n gwneud synnwyr i'r bylchau adolygu'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog cyd-fynd gyda thymhorau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Bethan Wyn Hughes
Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

23 Medi 2011